# Mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid i Brydain Fawr

Diffinio beth yw cynnyrch risg uchel, canllawiau ar lefelau afflatocsinau mewn bwyd wedi'i fewnforio, cyfyngiadau a chanllawiau cyfredol Prydain Fawr ar gyfer mewnforio cynhyrchion penodol o wledydd nad ydynt ym Mhrydain Fawr.

Rhaid i'r holl gynhyrchion sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr gydymffurfio â'n gofynion o ran diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r deddfau hyn ar waith er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Mae mathau penodol o fwydydd sy'n cael eu hystyried yn rhai 'risg uchel'. Os ydych chi'n ymwneud â'r broses o fewnforio bwyd o wlad y tu allan i Brydain Fawr, mae'n rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r canllawiau hyn.

Os nad yw cynhyrchion a gaiff eu mewnforio yn bodloni'r safonau cywir, ni chaniateir iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr. Mae'n bwysig nodi mai dim ond trwy Fannau Rheoli ar y Ffin y gellir mewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid risg uchel nad ydynt yn dod o anifeiliaid (HRFNAO), lle mae'n rhaid gwirio dogfennau ac efallai y bydd angen gwiriadau ffisegol cyn eu rhyddhau.

Sylwer bod y rheolaethau mewnforio ar HRFNAO y tu allan i gwmpas proses categoreiddio risg y Model Gweithredu Targed ar gyfer Ffiniau (BTOM), a bod yr holl wiriadau risg yn seiliedig ar y rheiny a ragnodir yn y rheolaethau a gymathwyd.

Gellir ystyried bod cynhyrchion yn rhai risg uchel os ydynt yn cynnwys:

- halogion – mycotocsinau ac afflatocsinau
- plaladdwyr
- micro-organebau sy'n peri risg i iechyd y cyhoedd, fel Salmonela neu listeria

Gellir dod o hyd i wybodaeth am gynhyrchion risg uchel, gwlad tarddiad ac amlder gwiriadau yn Rheoliad a gymathwyd (UE) 2019/1793. Mae'r Rheoliad hwn yn rheoli HRFNAO a fewnforir.

Pan fydd cynhyrchion yn cael eu hallforio o'r wlad tarddiad i wlad arall cyn dod i Brydain Fawr, ystyrir hyn yn enghraifft o 'fasnach drionglog'. Yn yr achos hwn, nid yw'r wlad tarddiad wedi newid, a bydd y rheolaethau'n dal i fod yn gymwys.

Sylwer – pan fydd cynhyrchion yn cael eu hallforio o'r wlad tarddiad i wlad arall ac yn cael eu prosesu ymhellach yno cyn dod i Brydain Fawr, ystyrir bod y cynhyrchion yn gynnyrch y wlad arall honno, a byddant y tu hwnt i gwmpas y rheolaethau HRFNAO. O ran cyfraith bwyd, mae 'prosesu' yn golygu unrhyw weithred sy'n newid y cynnyrch cychwynnol yn sylweddol. Mae prosesu'n cynnwys: gwresogi, cochi, aeddfedu, sychu, marinadu, echdynnu, allwthio neu gyfuniad o'r prosesau hynny. Yn ogystal, ystyrir bod cymysgu'r cynnyrch â nwydd arall (heb ei reoli) yn enghraifft o brosesu.

Caniateir i gynhyrchion sy'n cael eu rheoli ar y ffin symud yn fewndirol wrth aros am ganlyniadau profion labordy, a hynny'n ddibynnol ar gael caniatâd yr awdurdod iechyd porthladdoedd. Fodd bynnag, rhaid rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y llwyth (*consignment*) yn parhau i fod o dan reolaeth barhaus yr awdurdodau cymwys ac na ellir ymyrryd ag ef mewn unrhyw ffordd tra'n disgwyl am ganlyniadau'r gwiriadau labordy.

Hyd nes y bydd canlyniadau'r gwiriadau labordy yn hysbys, rhaid i'r llwyth gael ei storio mewn warws dan reolaeth Tollau neu Gyfleuster Storio Dros Dro Allanol yn y Deyrnas Unedig (DU). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau/ymholiadau, gallwch chi anfon e-bost at onward.transport@food.gov.uk

Dilynwch y ddolen hon i weld y rhestr gyfredol o weithredwyr ETSF.

## Bwyd â chyfyngiadau cyfredol

Mae'r rheolaethau hyn yn bodoli i ddiogelu iechyd y cyhoedd a gallant naill ai atal mewnforion neu nodi amodau mewnforio. Yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond trwy fannau cyrraedd dynodedig y gellir mewnforio llwythi, mae'n rhaid gwirio dogfennau a gall fod angen samplu a dadansoddi neu archwilio cyn eu rhyddhau. Dyma'r rhestr o nwyddau y mae Prydain Fawr wedi rhoi cyfyngiad arnynt.

## Lefelau afflatocsinau mewn bwyd wedi'i fewnforio

Mae afflatocsinau yn fath o docsin naturiol a ganfyddir mewn bwyd, a chânt eu cysylltu â chanser os cânt eu bwyta mewn lefelau uchel. Gall rhai sbeisys, cnau, ffrwythau wedi'u sychu a grawnfwydydd, gan gynnwys cynhyrchion grawnfwyd fel grawnfwydydd brecwast, gynnwys lefelau uchel o afflatocsinau.

Mae terfynau ar lefelau'r afflatocsinau a ganiateir mewn bwydydd sy'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr, ac efallai bod angen profi rhai cynhyrchion.

## Lefelau plaladdwyr mewn bwyd wedi'i fewnforio

Mae rhai cynhyrchion nad ydynt yn dod o anifeiliaid o drydydd gwledydd penodol yn cael eu rheoli oherwydd y risgiau o halogi â gweddillion plaladdwyr.

## Bwydydd sydd wedi'u cyfyngu

Gweler isod grynodeb o gynhyrchion eraill sy'n destun cyfyngiadau.

### Saws soi sy'n cynnwys 3-MCPD

Mae rhai mathau o saws soi yn cynnwys cemegyn peryglus o'r enw 3-MCPD. Mae cyfyngiadau ar lefelau 3-MCPD a ganiateir mewn cynhyrchion a gaiff eu mewnforio i Brydain Fawr.
Maent fel a ganlyn:

- caiff saws soi gynnwys lefelau o 3-MCPD heb fod yn uwch na 0.02 mg/kg
- mae hyn ar gyfer y cynnyrch hylif sy'n cynnwys 40% sylwedd sych, sydd gyfystyr ag uchafswm o 0.05 mg/kg yn y sylwedd sych

### Gwaharddiad ar fewnforio melysion jeli

Mae cyfyngiadau ar yr ychwanegion a ganiateir mewn rhai melysion jeli gan fod perygl o dagu:

- Mae defnyddio, wrth gynhyrchu jeli cwpanau bach, ychwanegion penodol a nodir yn Atodiad II Rheoliad 1333/2008, a gwerthu'r cwpanau hyn, wedi'i wahardd
- Yn ogystal, mae defnyddio E425 konjac mewn unrhyw felysion jeli, gan gynnwys jeli cwpanau bach, a gwerthu melysion o'r fath, wedi'i wahardd o dan Reoliad 1333/2008

- Caiff y darpariaethau hyn eu gorfodi gan Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013.

### Gwaharddiad ar fewnforio kava kava

Mae 'Kava Kava', sy'n aelod o deulu'r pupryn, yn feddyginiaeth berlysieuol draddodiadol ar gyfer trin gorbryder (anxiety). Mae'r perlysieuyn wedi cael ei wahardd ers 2003. Mae hyn oherwydd pryderon am ei effaith wenwynig ar yr afu/iau. Ni ellir mewnforio atchwanegiadau kava kava, nac unrhyw fwydydd sy'n cynnwys y perlysieuyn hwn, i Brydain Fawr.

### Lliw (*dye*) anghyfreithlon mewn sbeisys ac olewau palmwydd

Mae rhai sbeisys penodol mewn perygl o gael eu halogi. Mae awdurdodau bwyd yn rheoleiddio mewnforion risg uchel. Os yw lefel y lliw anghyfreithlon yn uwch na 0.5 rhan fesul miliwn (0.5ppm), cânt eu gwrthod.

Dyma'r rhywogaethau sydd mewn perygl o gael eu halogi â lliwiau anghyfreithlon:

- tsili wedi'i sychu
- cynhyrchion tsili
- powdwr cyri
- olew palmwydd

## Ffurflen gais ar gyfer Mannau Rheoli ar y Ffin (BCPs)

Mae'r ffurflen hon ar gyfer BCPs arfaethedig a fydd yn ymdrin â bwyd nad yw'n dod o anifeiliaid. Mae'r ffurflen yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer y cyfleusterau a'r staffio sy'n ofynnol. Mae hefyd yn caniatáu i weithredwyr y porthladdoedd nodi rhai cynhyrchion rheoledig pan na ragwelir y bydd y cyfleusterau'n cael eu dynodi ar gyfer yr holl gynhyrchion. Pan fydd gweithredwyr porthladdoedd yn gwneud cais am gyfleusterau a rennir, er enghraifft, maent yn disgwyl cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid hefyd, dylent gysylltu â'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phorthladdoedd i fynegi eu diddordeb.

**Mae'r ffurflen yn berthnasol i Loegr yn unig ac felly ar gael yn Saesneg yn unig.**

### England

WORD
Gweld BCP Application Form as Word(Open in a new window) (107.86 KB)